

SESIWN 4: STORïAU NEWID HINSAWDD

Ystod oedran: 11 – 14 oed

<p>Amlinelliad</p> <p>Bydd y dysgwyr yn dysgu bod newid hinsawdd yn cael effaith ar bobl o gwmpas y byd. Byddant yn chwarae 'Gêm niwed newid hinsawdd' sy'n pwysleisio mai'r cymunedau mwyaf agored i niwed sydd yn aml yn cael eu heffeithio waethaf gan newid hinsawdd, er mai nhw sy'n cyfrannu leiaf at newid hinsawdd. Bydd y dysgwyr yn defnyddio astudiaethau achos i ymchwilio mewn mwy o fanylder i sut mae cymunedau o gwmpas y byd yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd. Yn olaf, byddant yn chwarae rôl i ddangos empathi at rai pobl y mae eu bywoliaeth dan fygythiad gan newid hinsawdd.</p>		
<p>Amcanion dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> Cydnabod bod pawb yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd ond mai'r rhai sy'n byw mewn tldi sydd fwyaf bregus. Disgrifio rhai o'r ffyrdd y mae cymunedau o gwmpas y byd yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd. Dangos empathi at rai pobl sydd yn y perygl mwyaf o ddioddef effeithiau newid hinsawdd. 	<p>Canlyniadau dysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd y dysgwyr yn chwarae 'Gêm niwed newid hinsawdd' i ddatblygu eu dealltwriaeth mai'r cymunedau mwyaf bregus yn aml sydd yn cael eu heffeithio'n fwyaf negyddol gan newid hinsawdd. Bydd y dysgwyr yn egluro mewn manylder sut mae newid hinsawdd yn effeithio'n negyddol ar gymuned neu unigolyn. 	
<p>Cwestiynau allweddol</p> <ul style="list-style-type: none"> Sut mae pobl a chymunedau yn cael eu heffeithio gan newid hinsawdd? Sut ydw i'n meddwl y mae hyn yn gwneud iddynt deimlo? 	<p>Adnoddau</p> <ul style="list-style-type: none"> Sioe sleidiau <i>Her hinsawdd B</i>; sleidiau 2 – 7. Taflen weithgaredd: <i>Gêm niwed newid hinsawdd – Cardiau rôl</i>. Tafleini adnoddau: <i>Storïau newid hinsawdd</i>. 	
<p>Cysylltiadau â'r cwricwlwm</p>		
<p>Lloegr</p> <p>CA3 Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Daearyddiaeth ddynol a ffisegol Dylai disgyblion gael eu haddysgu i ddeall sut mae prosesau dynol a ffisegol yn rhyngweithio i ddylanwadu ar dirweddau, amgylcheddau a'r hinsawdd, a'u newid; a sut mae gweithgaredd pobl yn dibynnu ar systemau naturiol sy'n gweithredu'n effeithiol. <p>CA3 Saesneg</p> <ul style="list-style-type: none"> Saesneg Llafar Dylai disgyblion gael eu haddysgu i siarad yn hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys trafodaeth ddosbarth. 	<p>Cymru</p> <p>CA3 Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau Egluro achosion ac effeithiau prosesau ffisegol a dynol a sut mae'r prosesau yn cydberthyn, e.e. achosion a chanlyniadau gweithgaredd tectonig, effeithiau mudo yn Ewrop. Egluro sut a pham fod lleoedd ac amgylcheddau yn newid, a nodi tueddiadau a goblygiadau i'r dyfodol, e.e. twf mewn poblogaeth, newid hinsawdd, globaleiddio. <p>Llythrennedd</p> <ul style="list-style-type: none"> Llafar Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau. <p>ADCDF: Newid Hinsawdd, Dewisiadau a Phenderfyniadau</p>	<p>Yr Alban</p> <p>Astudiaethau Cymdeithasol</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallaf nodi'r bygythiadau sy'n wynebu'r prif Barthau hinsawdd, gan gynnwys newid hinsawdd, a gwerthuso sut mae'r bygythiadau hyn yn effeithio ar ffordd o fyw. SOC 4-12a Gallaf ddatblygu fy nealltwriaeth o'r rhyngweithio rhwng pobl a'r amgylchedd drwy ddisgrifio ac asesu effaith gweithgaredd pobl ar ardal. SOC 4-10a <p>Llythrennedd</p> <p>Wrth wrando a siarad gydag eraill at ddibenion gwahanol, gallaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> gyfathrebu gwybodaeth, syniadau neu farn egluo prosesau, cysyniadau neu syniadau nodu'r problemau sy'n codi, crynhoi canfyddiadau neu ddod i gasgliadau. LIT 3-09a

Gweithgaredd 4.1: Gêm niwed newid hinsawdd (40 munud)

- Eglurwch fod y dysgwyr am chwarae gêm i ganfod pa ffactorau sy'n gwneud pobl yn fwy bregus nag eraill. Trafodwch gyda'r dysgwyr beth mae bod yn fregus, neu'n agored i niwed, yn ei olygu:
 - *Gall rhywbeth ddigwydd i chi.*
 - *Rydych yn colli rhywbeth.*
 - *Rydych mewn perygl neu risg.*
- Rhannwch y dysgwyr yn barau neu grwpiau o dri a gofynnwch iddynt sefyll mewn rhes yn un pen o'r ystafell yn eu grwpiau. Rhowch un o gardiau rôl gêm niwed newid hinsawdd i bob pâr neu grŵp.
- Eglurwch fod y cardiau rôl yn cynrychioli pobl ffuglennol sy'n byw yn Malawi, Affrica (mae un person yn gweithio yn Tanzania). Gofynnwch i'r dysgwyr dreulio ychydig o funudau yn dychmygu bywyd dyddiol yr unigolyn y maent yn chwarae ei rôl, a meddwl am enw i'r cymeriad.
- Darllenwch y rhestr o osodiadau isod i'r dysgwyr, a gofynnwch i'r dysgwyr hynny y byddai eu cymeriad yn cytuno â'r gosodiad gamu ymlaen (rhowch amser iddynt yn eu grŵp i benderfynu a fyddant yn cytuno â'r gosodiad). Anogwch y grwpiau hynny sydd yn ansicr ar sut i ateb i ofyn i chi am gyngor.
- Yn y pen draw, bydd y dysgwyr wedi lledu ar draws yr ystafell yn ôl sawl cam maen nhw wedi ei wneud.

Gosodiadau agored i niwed

1. *Rydych yn derbyn neu wedi derbyn addysg gynradd.*
2. *Rydych yn derbyn neu wedi derbyn addysg uwchradd.*
3. *Gallwch fforddio i gwrdd â'ch anghenion sylfaenol.*
4. *Dydych chi byth yn brin o fwyd.*
5. *Dydych chi ddim yn dibynnu ar dywydd lleol da i dyfu cnydau i wneud bywoliaeth neu i gael bwyd i'w fwyta.*
6. *Gallwch fforddio gweld meddyg a phrynu meddyginiaeth pan fo gennych broblemau iechyd.*
7. *Mae gennych y pŵer i ddylanwadu ar bobl yn eich cymuned.*
8. *Os oes argyfwng, daw'r gwasanaethau argyfwng i'ch helpu chi a'ch cymuned.*
9. *Mae gennych bobl sydd yn gofalu amdanoch ac yn eich amddiffyn.*
10. *Mae gennych arian wedi ei gynilo.*
11. *Does dim rhaid i chi wneud pethau peryglus er mwyn byw.*
12. *Gallwch fforddio rhywle i fyw.*
13. *Rydych yn byw mewn tŷ cadarn sy'n ddiogel mewn tywydd drwg.*
14. *Os oes gennych rhywle i fyw, mae wedi ei yswirio.*
15. *Mae gennych sgiliau darllen ac ysgrifennu sy'n ddigon da i gael swydd sy'n darparu cyflog rheolaidd.*
16. *Os ydych yn colli eich ffordd o wneud incwm, mae'n siŵr y cewch un arall.*

- Wedi i chi ddarllen drwy'r holl osodiadau, gofynnwch i'r grwpiau aros lle maen nhw, a chyflwyno eu cymeriad i'r grwpiau eraill. Anogwch y dysgwyr i roi rhesymau am eu penderfyniadau o ran faint o gamau y bu iddyn nhw gymryd.
- Gofynnwch i'r dysgwyr eraill os ydynt yn meddwl bod pob cymeriad wedi'i leoli'n gywir mewn perthynas ag eraill. Er enghraifft: *Ydych chi'n credu y dylai'r gŵr priod fod ymhellach ymlaen na'r ferch 12 oed?* Anogwch drafodaeth os oes anghytun.
- Gofynnwch i'r dysgwyr nodi pa ffactorau sy'n gwneud pobl yn fwy bregus nag eraill. *Pa mor fregus ydynt yn meddwl y byddai eu cymeriad wrth ystyried effeithiau newid hinsawdd?* Rhannwch y ffeithiau canlynol i helpu'r dysgwyr nodi ffyrdd y gallai eu cymeriad gael ei effeithio.
 - *Gall newid hinsawdd achosi i faint o law sy'n disgyn fod yn anodd ei ragweld, a gallai hynny effeithio ar gnydau, cynhyrchu bwyd a ffynonellau dŵr.*
 - *Mae newid hinsawdd yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o dywydd eithafol.*
 - *Gall tywydd eithafol fel llifogydd ddinistrio neu ddifrodi tai, cnydau a ffyrdd.*
- Gofynnwch i'r dysgwyr geisio trefnu eu hunain ar draws yr ystafell yn ôl pa mor fregus maen nhw'n meddwl y byddai eu cymeriad o ran effeithiau newid hinsawdd (un ochr i'r ystafell – bregus iawn, ochr arall i'r ystafell – ddim yn fregus). Yna gofynnwch i'r dysgwyr drefnu eu hunain ar draws yr ystafell yn ôl beth maen nhw'n meddwl fyddai ôl troed carbon eu cymeriad (un ochr i'r ystafell – ôl troed carbon bach, ochr arall i'r ystafell – ôl troed carbon mawr).
- Dangoswch sleid 3. Eglurwch fod newid hinsawdd yn effeithio ar bawb, ond mae llawer o bobl mewn gwledydd tlotach yn cael eu taro'n galetach na llawer o bobl mewn gwledydd cyfoethocach. A phobl sy'n byw yn rhanbarthau'r byd sydd â lleiaf o sicrwydd bwyd sy'n cael eu taro galetaf. Yn eironig (ac yn annheg), y bobl sy'n cyfrannu leiaf at newid hinsawdd sy'n dioddef fwyaf.

Gweithgaredd 4.2: Storiâu newid hinsawdd (30 munud)

- Rhowch gopi o storiâu *Newid hinsawdd* i bob dysgwr. Mae'r storiâu hyn i'w gweld hefyd ar sleidiau 4 i 7. Eglurwch mai proffiliau pobl go iawn yw'r rhain sydd cael eu heffeithio gan newid hinsawdd. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen eu stori a meddwl sut fydden nhw'n cyflwyno'r unigolyn yma i'r lleill yn y dosbarth.
- Efallai y bydd angen i chi egluro ystyr rhai o'r dangosyddion sydd i'w gweld yn ffeil ffeithiau'r wlad:

Disgwyliad oes

Disgwyliad oes ar enedigaeth yw'r nifer o flynyddoedd y byddai baban newydd-anedig yn byw pe byddai'r patrymau cyffredinol marwolaeth ar adeg yr enedigaeth yn aros yr un fath drwy eu bywyd. Disgwyliad oes yn y Deyrnas Unedig yn 2012 oedd 82 oed.

Cynnyrch Domestig Gros (GDP) y pen

Gall cyfoeth gwlad gael ei fesur drwy ddefnyddio Cynnyrch Domestig Gros (GDP) y pen. Caiff ei gyfrifo drwy gymryd cyfanswm yr arian sy'n cael ei wneud yn y wlad dros y flwyddyn a'i rannu gyda nifer y bobl yn y wlad. Caiff y cyfrifiad hwn ei wneud yn noleri UDA er mwyn i bob gwlad gael eu cymharu'n deg. Efallai yr hoffech gyfeirio at GDP y pen fel cyfartaledd incwm y pen mewn blwyddyn. Roedd GDP y pen yn y DU yn 2013 yn UDA\$39,337.

Tlodi eithafol

Caiff byw mewn tlodi eithafol ei ddiffinio fel byw ar lai na £1 (neu \$1.25 o ddoleri UDA) y dydd am eich holl anghenion. Yn 2010, canran o bobl y DU oedd yn byw mewn tlodi eithafol oedd 1%.

- Bydd y dysgwyr wedi cael eu cyflwyno i'r syniad o ôl traed carbon ac allyriadau CO₂ y pen yn Sesiwn 2. I gymharu, efallai yr hoffech eu hatgoffa bod allyriadau CO₂ y pen yn y Deyrnas Unedig yn 10.0t CO₂.¹

¹**Ffynhonnell y data:** Yr Atlas Carbon Byd-eang: <http://globalcarbonatlas.org/>

- Fel grŵp cyfan, trafodwch y cwestiynau posibl y gallech eu gofyn i'r bobl sydd yn ymddangos yn y storïau (fel cwestiynau sy'n dechrau gyda *Pam*, *Beth*, *Ble*, *Pryd* a *Sut*).
- Mae cwestiynau posibl yn cynnwys:
 - *Ble rydych yn byw?*
 - *Ym mha gyfandir mae eich gwlad?*
 - *Beth allwch chi ddweud am eich gwlad?*
 - *Sut mae newid hinsawdd wedi effeithio ar eich bywyd, eich teulu a'ch chymuned?*
 - *Sut mae hyn yn gwneud i chi deimlo?*
- Mewn parau gyda rhywun sydd â stori wahanol, gofynnwch i'r disgyblion gymryd tro i fod yn gyfwelydd a chael eu cyfweld fel yr un yn y stori.
- Os nad yw'r atebion i gwestiynau'r cyfwelydd wedi eu darparu yn *Storïau newid hinsawdd*, gall y dysgwyr actio yn eu rôl, gan ddefnyddio eu syniadau eu hunain yn seiliedig ar agweddau eraill ar yr hyn maen nhw'n gwybod neu wedi ei ddarllen. Pwysleiswch mai gweithgaredd dangos empathi a dychmygu yw hwn, yn hytrach na chanfod ffeithiau gwyddonol.
- Os oes digon o amser, gall parau o ddysgwyr gyflwyno eu hunain yn eu rôl i bâr arall. Neu gall parau actio eu cyfweliadau ger bron y dosbarth.
- Gorffennwch drwy drafod beth mae'r dysgwyr wedi dysgu o'r gweithgaredd.

Syniadau pellach

- Gallai'r dysgwyr greu stori fer, erthygl papur newydd, cofnod mewn dyddiadur, sribed cartŵn neu gerdd i ddisgrifio teimladau a barn yr unigolyn sy'n cael ei effeithio gan newid hinsawdd. Gallai'r dysgwyr wneud bwrdd arddangos o'u darnau ysgrifennu creadigol a/neu wneud cyflwyniad i rannu eu gwaith gyda disgyblion eraill yr ysgol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr restru cwestiynau pellach yr hoffent eu gofyn i'r bobl yn yn *Storïau newid hinsawdd*. Er na fyddant yn gallu canfod yr atebion, mae'r broses o ofyn cwestiynau ynddi ei hun yn datblygu empathi. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl beth sy'n gwneud cwestiwn da. Anogwch nhw i arbrofi â gwahanol fathau o gwestiynau, er enghraifft cwestiynau agored a chaeedig neu rai hawdd ac anodd i'w hateb. Trafodwch fanteision ac anfanteision mathau gwahanol o gwestiynau.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB / Bywydau Ifanc

Cewch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Gyda phob defnydd, rhaid ichi gyfeirio at y ffotograffydd a enwir ac at Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn perthyn i'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd gwaith y prosiect.

Gêm niwed newid hinsawdd

Cardiau rôl

<p>Rydych yn ferch 12 oed o deulu fferm sydd wedi cael eich cymryd allan o'r ysgol gan bod angen help ar eich mam i gasglu dŵr a choed. Mae'r daith i'w casglu yn mynd yn hirach bob mis.</p>	<p>Rydych yn ffermwraig ymgynhaliol sydd yn tyfu india-corn. Rydych ond yn tyfu digon o fwyd i chi a'ch teulu ei fwyta.</p>
<p>Rydych yn ŵr priod gyda phedwar o blant, ac yn rhedeg canolfan fwyd mewn tref fechan. Fe golloch chi eich braich mewn rhyfel, ond mae gennych incwm da.</p>	<p>Rydych yn ddynes sydd wedi gorfod symud o'ch pentref ac yn cuddio mewn coedwig. Rydych yn chwilota am fwyd a dŵr ond rydych yn aml yn llwgu ac yn ofnus iawn.</p>
<p>Rydych yn swyddog llywodraeth leol. Mae gennych ddylanwad a gallwch fforddio popeth yr ydych ei eisiau.</p>	<p>Rydych yn fachgen 16 oed yn gweithio mewn cloddfa diemwntau yn y wlad drws nesaf sef Tanzania. Cewch ychydig o fwyd am eich gwaith, ond dim arian.</p>
<p>Rydych yn eich ardegau ac yn fab i brif weithredwr cwmni gweithgynhyrchu mawr. Rydych yn mynd i ysgol fonedd ac rydych ar hyn o bryd yn gwneud cais i fynd i brifysgol.</p>	<p>Rydych yn weithiwr mewn sefydliad hawliau dynol cenedlaethol. Rydych yn gwneud swydd beryglus ac yn gweithio oriau hir iawn ac gyflog bach.</p>
<p>Rydych yn ffermwr sydd â'i gnydau cotwm wedi methu ddwy flynedd yn olynol. Rydych yn awr yn defnyddio beic i gasglu siarcol 30km i ffwrdd o'ch cartref i gefnogi eich hun a'ch teulu.</p>	<p>Rydych yn gyn-gadlywydd yn byw mewn planhigfa rwber. Rydych yn gwneud llawer o arian o'r rwber ac mae gennych gysylltiadau dylanwadol.</p>

Storïau newid hinsawdd: Uganda

Ffeil ffeithiau Uganda

Prifddinas: Kampala
Poblogaeth: 38 milion
Pwynt uchaf: Copa Margherita ar Fynydd Stanley (5,110m)
Pwynt isaf: Llyn Albert (621m)
Hinsawdd: Mae'r hinsawdd fel arfer yn drofannol: glawog gyda dau dymor sych. Rhanbarth Karamoja yn y gogledd-ddwyrain sydd â'r hinsawdd sychaf.
Disgwyliad oes cyfartalog: 59 oed
GDP y pen: \$572
Canran y boblogaeth sy'n byw mewn tldi eithafol: 38%
Allyriadau CO₂ y pen yn 2012: 0.2 tCO₂



Data wedi ei dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf (data poblogaeth i'r miliwn agosaf)

Ffynonellau data: Data Agored Banc y Byd: <http://data.worldbank.org/> (2012-2013)

Yr Atlas Carbon Byd-eang: <http://globalcarbonatlas.org/>

Ffynhonnell y llun: Alvaro1984 18, http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Location_Uganda_AU_Africa.svg

Mae Uganda wedi dioddef sychder erioed ond mae'r rhain yn dod yn fwy cyffredin oherwydd newid hinsawdd. Mae hyn yn gwneud tyfu cnydau a chadw gwartheg yn anodd iawn.

Daw Martina Longom o bentref Caicaoan yn ardal Karamoja yn Uganda. Mae sychder yno ers tair blynedd. Meddai:

“Yn y gorffennol, roedd digon o law. Pan oedd yn bwrw roedd y caeau yn cynhyrchu pob math o ffrwythau ac roedd ein mamau yn storio llawer o fwydydd yn ein *hysguboriau*. Roedd gennym ddigon o *sorghum* wedi ei ferwi ac uwd i'w fwyta a digon o laeth i'w yfed.

Ond nawr mae pethau'n wahanol. Mae'r gwartheg yn marw. Mae'r glaw wedi diflannu. A phan mae'n bwrw, glaw mân ydyw. Nid yw'r glaw mân yn ddigon i'r *sorghum* dyfu'n iawn.



Gwybodaeth am y llun: Mae Martina yn ymuno â merched y pentref i gasglu dŵr o'r ffynnon leol.

Llun gan: Geoff Sayer/Oxfam



Ni allwn gael hyd i'r dŵr yfed oeddem yn arfer ei nôl o welyau'r afonydd. Mae gwelyau'r afonydd wedi sychu hefyd. Mae yna lawer o syched...Hyd yn oed os oes gennych fwyd i'w goginio, mae dal angen dŵr arnoch i goginio. Beth allaf wneud? Nid oes digon o eiriau i fynegi'r boen.”

Gwybodaeth am y llun: Mae Martina yn casglu coed tân. Mae'n gwneud y daith deirgwaith yr wythnos, gan adael am 7.00am a dychwelyd rhwng 12.00 a 1.00pm.

Llun gan: Geoff Sayer/Oxfam

Geiriau allweddol

Sychder: Cyfnod hir o'r nesaf peth i ddim o law, sy'n arwain at brinder dŵr.

Ysguboriau: Lle i storio grawn.

Sorghum: Grawn sy'n gnwd pwysig dros y byd. Caiff ei ddefnyddio fel bwyd, i fwydo anifeiliaid ac wrth gynhyrchu diodydd alcoholig a biodanwydd.

Storïau newid hinsawdd: Bolifia

Ffeil ffeithiau Bolifia

Prifddinas: La Paz
Poblogaeth: 11 miliwn
Pwynt uchaf: Nevado Sajama (6,542m), mynyddoedd yr Andes.
Pwynt isaf: Rio Paraguay (90m)
Hinsawdd: Mae'r hinsawdd yn amrywio'n fawr mewn rhannau gwahanol o'r wlad. Mewn rhai llefydd mae'n boeth a llaith, a gall fwrw eira mewn rhannau eraill.
Disgwyliad oes cyfartalog: 67 oed
GDP y pen: \$2,868
Canran y bobl sy'n byw mewn tldi eithafol: 8%
Allyriadau CO₂ y pen yn 2012: 1.4 tCO₂



Data wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf (data poblogaeth i'r miliwn agosaf)

Ffynonellau data: Data Agored Banc y Byd: <http://data.worldbank.org/> (2012-2013)

Yr Atlas Carbon Byd-eang: <http://globalcarbonatlas.org/>

Ffynhonnell y llun: Connormah, [http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Bolivia_\(orthographic_projection\).svg](http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Bolivia_(orthographic_projection).svg)

Mae Bolifia wedi bod yn gynhesach ac mae yno lai o law wedi bod. O ganlyniad, mae'r rhewlifoedd ym mynyddoedd Bolifia yn lleihau. Mae rhewlifoedd yn rhoi dŵr i ffermwyr. Heb y dŵr hwn, ni all y ffermwyr *ddyfrhau* eu cnydau.

Mae Lucia Quispe, sy'n 38 oed, yn dod o bentref Khapi ar gyrion La Paz (prifddinas Bolifia). Mae'n sôn am Illimani, y mynydd sy'n agos i ble maen nhw'n byw:

"Mae gen i ddwy ferch ac un mab, Javier, a anwyd yma yn y pentref. Rwy'n bryderus iawn pan welaf Illimani yn colli ei eira a'i rew. Mae'r eira a'r rhew yn diflannu fesul dydd, fesul blwyddyn. Mae'r haul yn gryfach. Nid yw'n bwrw eira cymaint. Rydyn ni'n poeni'n fawr.

Mae popeth yn dibynnu ar ddŵr. Mae gen i lain o dir. Rwy'n tyfu corn, tatws, ffa a phys. Mae'n dibynnu beth rydyn ni'n plannu. Os oes dŵr, gallwn ddyfrhau: os nad oes, allwn ni ddim.



Llun gan: Mark Chilvers



Gwybodaeth am y llun: Golygfa dros La Paz gyda Mynydd Illimani yn y cefndir

Llun gan: Mark Chilvers

Gallai fod, mewn 30 neu 40 o flynyddoedd, neu ychydig mwy, na fydd eira a rhew ar ôl ar Illimani. I fy mab, byddai hynny'n golygu dioddef mawr. Efallai na fydd rhagor o eira, dim rhagor o ddŵr yn dod i lawr...Byddai'n rhaid i fy mab adael.

Mae'r hinsawdd gynhesach yn golygu hefyd bod afiechydon fel *malaria* yn lledu. O'r blaen, doedd dim *malaria* yn y mynyddoedd, ond nawr mae pobl yn ei ddal yno."

Geiriau allweddol

Dyfrhau: Rhoi dŵr i dir neu gnydau, yn aml drwy balu sianeli.

Malaria: Afiechyd a achosir gan barasit sy'n cael ei drosglwyddo gan fogsitos.

Storïau newid hinsawdd: Bangladesh

Ffeil ffeithiau Bangladesh

Prifddinas: Dhaka
Poblogaeth: 157 miliwn
Pwynt uchaf: Ym mynyddoedd Mowdok (1052m)
Pwynt isaf: Cefnfor India (0m)
Hinsawdd: Mae gan Bangladesh hinsawdd monsŵn trofannol.
Mae'r rhan fwyaf o'r glaw yn disgyn rhwng Mehefin a Medi.
Disgwyliad oes cyfartalog: 70 oed
GDP y pen: US\$829
Canran y boblogaeth yn byw mewn tldi eithafol: 43
Allyriadau CO₂ y pen yn 2012: 0.5 tCO₂



Data wedi ei dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf (data poblogaeth i'r miliwn agosaf)
Ffynonellau data: Data Agored Banc y Byd: <http://data.worldbank.org/> (2010-2013)
The Global Carbon Atlas: <http://globalcarbonatlas.org/>
Ffynhonnell y llun: Shahid Parvez, yn seiliedig ar ffeil gan [User:Ssolbergj](http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Bangladesh_(orthographic_projection).svg)
[http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Bangladesh_\(orthographic_projection\).svg](http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Bangladesh_(orthographic_projection).svg)

Dyma Hasina Begum o Char Atra, cymuned ynys, yn cynaeafu tsilis o'i gardd lysiau. Mae pobl sy'n byw yma wedi cael problemau mawr oherwydd bod eu tir yn cael ei golli yn sgil erydu wrth i'r afon orlifo'i glannau. Cafwyd llifogydd drwg iawn yn 2007. Mae hyn yn gwneud tyfu cynyddau'n anoddach.

Meddai: "Wyth mis yn ôl, roeddwn yn byw lle mae'r afon nawr. Ers i mi briodi rwyf wedi symud tŷ chwe gwaith oherwydd bod yr afon yn erydu'r tir. Mae hyn yn digwydd yn amlach.

Cyn hynny, roedden ni'n arfer aros am dair neu bedair blynedd mewn un lle, ond yn ystod y pum mlynedd diwethaf rydyn ni wedi cael ein gorfodi i symud bob blwyddyn. Chwe mlynedd yn ôl, roedd gennym ni dir ond collwyd y tir i'r afon a nawr does gennym ni ddim tir.

Gobeithiaf y byddwn yn ddiogel eleni ond ni allwn ragweld ble fydd yr afon wedi erydu'r tir wedi'r llifogydd."



Gwybodaeth am y llun: Hasina yn cynaeafu tsilis. Bydd yn eu sychu ac yn eu gwerthu.
Llun gan: Shebab Uddin



Mae trychinebau tywydd hefyd yn achosi i fywydau a chartrefi gael eu colli, ac yn achosi clefydau. Afiechyd dolur rhydd yw'r ail brif achos o farwolaeth mewn plant o dan bump oed. Mae oddeutu 760,000 o blant yn marw ohono bob blwyddyn.*

Gwybodaeth am y llun: Dynes yn cerdded drwy dir sydd wedi dioddef o lifogydd yn Bangladesh i ddychwelyd i'w chartref.
Llun gan: Peter Caton/Oxfam

***Ffynhonnell:** WHO, 2013:
<http://www.who.int/mediacentre/factsheets/fs330/en/>

Geiriau allweddol

Erydu: Pan fo gwynt, dŵr (fel pan fo'r afon yn gorlifo) neu brosesau naturiol eraill yn torri i mewn i'r tir.

Storiau newid hinsawdd: Malawi

Ffeil Ffeithiau Malawi

Prifddinas: Lilongwe
Poblogaeth: 16 miliwn
Pwynt uchaf: Copa Sapitwa, Mynydd Mulanje (3,002m)
Pwynt isaf: Lle mae Afon Shire yn cyrraedd y ffin â Mozambique (37m).
Hinsawdd: Yn gyffredinol drofannol. Mae tymor glawog o Dachwedd i Ebrill, ond ychydig neu ddim glaw drwy lawer o'r wlad o Fai i Hydref.
Disgwyliad oes cyfartalog: 55 oed
GDP y pen: US\$226
Canran o'r boblogaeth sy'n byw mewn tldi eithafol: 72%
Allyriadau CO₂ y pen yn 2012: 0.2 tCO₂



Data wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf (data poblogaeth wedi ei dalgrynnu i'r miliwn agosaf)
Ffynonellau data: Data Agored Banc y Byd: <http://data.worldbank.org/> (2010-2013)
Yr Atlas Carbon Byd-eang: <http://globalcarbonatlas.org/>
Ffynhonnell y llun: Alvaro1984 18,

Mae Martin yn byw ym mhentref Msaka yn Malawi. Mae'n pysgota yn Llyn Malawi, sef y nawfed llyn mwyaf yn y byd. Mae pysgod o'r llyn yn ffynhonnell bwysig o *brotein* yn niet pobl. Maent hefyd yn bwysig iawn i'r holl bysgotwyr sy'n dal pysgod ar y llyn.

Mae lefelau dŵr y llyn wedi gostwng yn gyflym yn y blynyddoedd diweddar, a hynny wedi'i achosi gan newid hinsawdd (mae'n bwrw llai o law), twf poblogaeth (mae mwy o bobl yn cymryd dŵr o'r llyn at ddibenion gwahanol) a digodwigo (llai o goed yn golygu llai o law).

Mae pysgotwyr fel Martin wedi gweld eu dalfeydd o bysgod o Lyn Malawi yn lleihau yn yr 20 mlynedd diwethaf. Maen nhw'n dweud bod y gwyntoedd yn newid. Mae hyn yn effeithio cerrynt dŵr y llyn sydd yn ei gwneud hi'n anoddach i bysgotwyr ddal pysgod.



Gwybodaeth am y llun: Martin wrth ymyl y rheseli, lle mae'r pysgod a ddaliwyd yn cael eu gosod i sychu.
Llun gan: Oxfam



Meddai Martin:

“Rydyn ni'n dal llai o bysgod nawr. Roedden ni'n arfer eu dal yn agos i'r lan. Nawr mae'n rhaid i ni fynd i ddŵr dyfnach a defnyddio llawer o danwydd, a nid yw'r hyn rydyn ni'n ei ddal bob tro yn talu'r gost. Gan fy mod i'n awr yn dal llai o bysgod ac yn gwario mwy ar danwydd, rwy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd.”

Gwybodaeth am y llun: Pysgota ar Afon Shire yn Malawi.
Llun gan: Nicole Johnston/Oxfam

Gair allweddol

Protein: Mae protein yn grŵp bwyd pwysig. Mae'n helpu ein corff i dyfu a thrwsio ei hun.